**YSGOL GYFUN GYMRAEG GLANTAF**

**POLISI TCC YSGOL**

## Rhagymadrodd

Pwrpas y polisi hwn yw cyflwyno rheolaeth, gweithrediad a defnydd y system teledu cylch cyfyng (CCTV) yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf.

Mae systemau TCC yr Ysgol yn cynnwys 92 o gamerâu wedi'u lleoli o fewn ac o amgylch adeiladau'r Ysgol.

Mae'r offer recordio yn cael ei storio yn ystafell y gweinydd ac mae'r cyfrifiaduron monitro wedi'u lleoli yn Swyddfa'r Gofalwyr a Swyddfa Mr Denis Pugh (Pennaeth Cynorthwyol-Ymddygiad). Swyddog cyffredinol yr ysgol sydd â gofal am y system TCC yw Mr James Chapman, Rheolwr Rhwydwaith TG.

Mae pob gweithredwr awdurdodedig a gweithiwr sydd â mynediad at ddelweddau yn ymwybodol o'r gweithdrefnau y mae angen eu dilyn wrth gyrchu'r delweddau a recordiwyd.

Mae pob gweithiwr yn ymwybodol o'r cyfyngiadau mewn perthynas â mynediad i, a datgelu delweddau wedi'u recordio.

Mae'r polisi hwn wedi'i lunio i lywodraethu rheolaeth holl weithrediadau dyfeisiau teledu cylch cyfyng a dyfeisiau recordio eraill sy'n ddarostyngedig i ddarpariaethau'r canlynol:

- Deddf Diogelu Data 2018 (a elwir fel arall yn GDPR)
- Gofynion Cod Ymarfer Teledu Cylch Cyfyng yr ICO
- Deddf Hawliau Dynol
- Cod Ymarfer Camerâu Gwyliadwriaeth y Swyddfa Gartref.

Pwrpas prosesu teledu cylch cyfyng:

Bydd y defnydd o'r systemau a weithredir gan yr ysgol at ddiben:-

- Atal a chanfod trosedd
- Lleihau ofn trosedd
- Gwella amddiffyn staff, plant a rhieni
- Gwella diogelwch trigolion, ymwelwyr

gymuned sy'n defnyddio'r cyfleusterau

- Atal ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Ymchwilio i ddigwyddiadau ymddygiadol

**Datganiad o fwriad**

Mae'r system TCC wedi'i chofrestru gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth o dan delerau Deddf Diogelu Data 2018 a bydd yn cydymffurfio â gofynion Deddf Diogelu Data 2018 a'r Codau Ymarfer cysylltiedig a amlinellir yn y polisi hwn.

Bydd y Pennaeth yn sicrhau bod yr holl staff priodol wedi'u hyfforddi ar ddefnyddio'r offer a'u bod yn gyfarwydd â'u cyfrifoldebau diogelu data

Mae pob dyfais a weithredir yn destun Asesiadau Effaith yn unol â Chod Ymarfer TCC i sicrhau bod ganddynt ddibenion cyfreithlon ar gyfer prosesu yn unol â gofynion Deddf Diogelu Data 2018 ac Erthygl 8 o'r Ddeddf Hawliau Dynol.

Bydd arwyddion rhybudd TCC, fel sy’n ofynnol gan y Cod Ymarfer’ yn cael eu gosod o amgylch pob rhan o’r ysgol. Bydd y rhain yn nodi’n glir bod teledu cylch cyfyng ar waith, perchennog y system a manylion cyswllt y Swyddog GDPR .

Bydd camerâu’n cael eu lleoli fel eu bod ond yn dal delweddau sy’n berthnasol i’r dibenion y’u gosodwyd ar eu cyfer a chymerir gofal i sicrhau nad yw disgwyliadau preifatrwydd rhesymol yn cael eu torri.

**Storio a chadw ffilm**

Ni fydd ffilm yn cael ei chadw am fwy na 31 diwrnod, oni bai bod digwyddiad yn digwydd sy'n golygu bod angen echdynnu a chadw'r ffilm honno fel tystiolaeth.

Tra'u bod yn cael eu cadw, bydd cywirdeb y recordiadau'n cael ei gynnal er mwyn sicrhau eu gwerth tystiolaethol ac i amddiffyn hawliau'r bobl y mae eu delweddau wedi'u recordio.

Bydd yr holl ddata a gedwir yn cael ei storio'n ddiogel.

**Mynediad i ffilm**

Bydd mynediad i ddelweddau wedi’u recordio yn gyfyngedig i’r staff hynny sydd wedi’u hawdurdodi i’w gweld neu asiantaethau gorfodi’r gyfraith ac ni fyddant ar gael yn ehangach

Eich hawliau o dan Ddeddf Diogelu Data 2018 a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR)

Mae’r cyfreithiau Diogelu Data yn rhoi hawliau penodol i unigolion o ran gwybodaeth bersonol a gedwir amdanynt gan unrhyw sefydliad. Mae’r hawliau hyn yn cynnwys:

• yr hawl i ofyn am gopïau o'r wybodaeth bersonol a gedwir amdanoch chi'ch hun a'i derbyn, er y gall rhywfaint o wybodaeth gael ei dal yn ôl yn gyfreithlon weithiau;

• yr hawl, mewn rhai amgylchiadau, i atal gwybodaeth bersonol rhag cael ei phrosesu os bydd gwneud hynny'n achosi niwed neu ofid;

• yr hawl i ofyn i wybodaeth anghywir gael ei chywiro;

• yr hawl i ofyn i wybodaeth beidio â chael ei phrosesu

Mae gennych hefyd yr hawl i ofyn i’r Comisiynydd Gwybodaeth, sy’n gorfodi ac yn goruchwylio’r Ddeddf Diogelu Data, asesu a yw prosesu gwybodaeth bersonol yn debygol o gydymffurfio â darpariaethau ein cyfrifoldebau deddfwriaethol ai peidio.

Bydd yr ysgol yn ymateb i geisiadau o fewn 30 diwrnod calendr o dderbyn y cais ysgrifenedig

**Mynediad at a datgeliad ffilm i drydydd parti**

Ni fydd unrhyw ddata a gofnodwyd yn cael ei ddatgelu i drydydd parti ac eithrio i sefydliadau awdurdodedig, megis yr Heddlu, lle gallai fod angen rhesymol i gael mynediad at y ffilm.

Bydd y ceisiadau hyn yn cael eu dogfennu o dan amodau Atodlen 2 a 3 y Ddeddf Diogelu Data i sicrhau bod datgeliadau yn gyfreithlon. Rhaid gwneud ceisiadau yn ysgrifenedig i'r Pennaeth.

Gellir defnyddio ffilm o fewn gweithdrefnau disgyblaeth a chwyno’r sgol yn ôl yr angen, a bydd yn amodol ar ofynion cyfrinachedd arferol y gweithdrefnau hynny.

**YSGOL GYFUN GYMRAEG GLANTAF**

**Cwynion**

Dylid cyfeirio unrhyw gwynion am system TCC yr ysgol at y Pennaeth.

Ymchwilir i gwynion yn unol â'r polisi hwn drwy dilyn bolisi cwynion yr ysgol by following the complaints policy of the school.

Wedi'i ddiweddaru Hydref 2023